S4C /

# Arweinydd Technegol Mudo Data

## Pam ymuno ag S4C?

Yn S4C, rydym yn angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu Pawb, Cer Amdani.

Mae S4C yn chwilio am Arweinydd Technegol Mudo Data i gyflawni prosiectau mawr, effaith uchel sy'n llunio dyfodol darlledu yng Nghymru. Mae hon yn swydd gyffrous i feddwlwr strategol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac sydd â brwdfrydedd dros gyflawni newid sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r diwydiant darlledu.

## Trosolwg o'r Swydd

Mae S4C yn defnyddio meddalwedd rheoli gorsafoedd o'r enw BSM. Mae'r feddalwedd hon wedi'i hysgrifennu yn Delphi ac mae wedi'i haddasu'n helaeth er mwyn ei theilwra ar gyfer gofynion penodol S4C. Yn ogystal â'r feddalwedd graidd, mae dau gynnyrch pellach wedi'u datblygu gan S4C:

Cwmwl: A ddefnyddir i gyflwyno syniadau rhaglenni i S4C a dilyn cyflwyniad llwyddiannus i'r cam contract.

PAC (*Programme as Completed*): Defnyddir hwn i gasglu data gan gwmnïau cynhyrchu ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglen, er enghraifft, casglu data am y gerddoriaeth a ddefnyddir i'w adrodd i PRS.

Mae S4C wedi penderfynu bod angen mwy o feddalwedd berchnogol i ddarparu'r swyddogaethau hyn er mwyn gwneud cefnogaeth yn fwy cadarn a pheidio â bod mor ddibynnol ar system bwrpasol.

Mae'r Arweinydd Technegol Mudo Data yn gyfrifol am arweinyddiaeth dechnegol, cynllunio a gweithredu gweithgareddau mudo data sy'n gysylltiedig â'r newid o hen systemau darlledu i ddatrysiad newydd meddalwedd Rheoli Systemau Darlledu (BSM) seiliedig ar gynnyrch.

Bydd y sawl sydd yn y swydd hon yn arwain y gwaith o dynnu, trawsnewid, dilysu a llwytho data darlledu cymhleth o hen systemau etifeddol - gan ddefnyddio technolegau cronfa ddata Oracle yn bennaf - i'r platfform targed newydd. Bydd yr Arweinydd Mudo Data yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid busnes, timau technegol, gwerthwyr systemau, a rheolwyr rhaglenni er mwyn sicrhau cywirdeb data, parhad gwasanaeth, a throsglwyddiad llwyddiannus i'r system newydd. Bydd y swydd hon yn cael ei chefnogi gan Weinyddwr(wyr) y Gronfa Ddata.

## Prif Ddyletswyddau

### Strategaeth a Chynllunio Mudo Data

- Diffinio a bod yn gyfrifol am y strategaeth, dull gweithredu a map ffordd ar gyfer mudo data o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer trosglwyddo'r data o hen systemau darlledu i'r datrysiad BSM newydd sy'n seiliedig ar gynnyrch.
- Nodi cwmpas, meysydd data, dibyniaethau, risgiau a rhagdybiaethau'r broses fudo mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid busnes a thechnegol.
- Datblygu cynlluniau mudo manwl, gan gynnwys dilyniannu, strategaethau pontio, cylchoedd ymarfer, a dulliau dirwyn y broses yn ôl.

### Tynnu, Trawsnewid a Llwytho Data

- Rheoli a goruchwylio'r elfen dechnegol o dynnu data o hen systemau darlledu gan ddefnyddio technolegau cronfa ddata Oracle.
- Dylunio a gweithredu trawsnewid data a rhesymeg trawsleoli er mwyn sicrhau bod hen strwythurau data yn cydweddu â'r model data BSM targed.
- Sicrhau mapio maes cywir a normaleiddio, glanhau a chyfoethogi data lle bo angen.
- Goruchwylio llwytho data i'r system darged, gan sicrhau perfformiad, cywirdeb a'r gallu i'w ailadrodd.

### Ansawdd a Dilysu Data

- Diffinio safonau ansawdd data, rheolau dilysu, a phrosesau cysoni.
- Arwain ar weithgareddau proffilio, dilysu a chysoni data er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn a chywir a'r data sydd wedi'i fudo yn gyson gyda'r cynnyrch BSM newydd.
- Gweithio gyda defnyddwyr busnes ac arbenigwyr pwnc i ddilysu data wedi'i fudo yn erbyn meini prawf derbyn y cytunwyd arnynt.

### Arweinyddiaeth Dechnegol a Chydweithredu

- Gweithredu fel y prif awdurdod technegol ar gyfer gweithgareddau mudo data o fewn y rhaglen.
- Cydweithio'n agos â'r cyflenwr BSM, timau peirianneg mewnol, ac integreiddwyr system i sicrhau bod dulliau mudo yn gydnaws â saernïaeth y platfform targed.
- Rhoi arweiniad a goruchwyliaeth dechnegol i ddatblygwyr a pheirianwyr data sy'n cefnogi gweithgareddau mudo.

### Cymorth Profi a Phontio

- Rhoi cymorth i brofi systemau, integreiddiad a beth sy'n dderbyniol i'r defnyddiwr drwy ddarparu setiau data wedi'u mudo a datrys diffygion sy'n gysylltiedig â data.
- Arwain ar ymarferion mudo ac ymarferion cyn mynd yn fyw.
- Rhoi cymorth i weithredu'r broses bontio a sefydlogi yn dilyn mudo, gan fynd i'r afael â materion data wrth iddynt godi.

### Dogfennaeth ac Adrodd

- Cynhyrchu a chynnal dogfennau mudo manwl, gan gynnwys mapiau data, rheolau trawsnewid, dogfennau cyfarwyddyd, a manylebau technegol.
- Rhoi diweddariadau rheolaidd ynghylch statws, adroddiadau risg, ac olrhain datrysiadau problemau i reolwyr rhaglenni ac uwch reolwyr.

- Cynhyrchu Dogfen Cyfarwyddyd Data ar gyfer pontio gweithredol, gan gynnwys beth a ddylid ac na ddylid ei wneud wrth fewnbynnu data i gynnal ansawdd a chywirdeb y data.

## Manyleb Person

| Priodweddau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad sylweddol o arwain mentrau mudo data cymhleth mewn amgylcheddau darlledu, cyfryngau, neu amgylcheddau data-ddwys.<br><br>Profiad o weithio gyda systemau a phlatfformau seiliedig ar y cwmwl.<br><br>Profiad profedig o fudo data o hen systemau i blatfformau modern sy'n seiliedig ar gynnyrch.<br><br>Profiad ymarferol gyda thechnolegau cronfa ddata Oracle mewn cyd-destun mudo data neu beirianneg data.<br><br>**Arbenigedd Technegol**<br>Arbenigedd da mewn cronfeydd data Oracle, gan gynnwys SQL, PL / SQL, tynnu data, ac optimeiddio perfformiad.<br><br>Dealltwriaeth fanwl o fodelu data, dylunio sgemâu, mapio maes, a thechnegau trawsnewid data.<br><br>Profiad o ddylunio a gweithredu prosesau Tynnu, Trawsnewid a Llwytho Data a fframweithiau mudo.<br><br>Yn gyfarwydd â Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau a phatrymau integreiddio a ddefnyddir i gefnogi mudo data i blatfformau modern. | |
| **Sgiliau a gwybodaeth** | **Sgiliau Dadansoddi a Datrys Problemau**<br>Sgiliau dadansoddi cryf gyda'r gallu i ddehongli strwythurau data cymhleth ac ymddygiadau hen systemau.<br><br>Gallu profedig i wneud diagnosis a datrys problemau gydag ansawdd, perfformiad a chyfanrwydd data.<br><br>**Cyfathrebu a Rheoli Rhanddeiliaid**<br>Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf, gyda'r gallu i esbonio cysyniadau technegol cymhleth i gynulleidfaoedd nad ydynt yn dechnegol. | Sgiliau Cymraeg, (Mae cymorth ar gael i ddatblygu sgiliau Cymraeg). |

| | | |
|---|---|---|
| | Profiad o weithio gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr busnes, peirianwyr, gwerthwyr, ac arweinwyr rhaglenni. | |
| **Priodweddau Personol** | Sylw manwl i fanylion ac ymagwedd strwythuredig, drefnus at gyflawni gwaith.<br><br>Sgiliau trefnu a rheoli amser da, gyda'r gallu i reoli ffrydiau gwaith lluosog.<br><br>Meddylfryd cydweithredol gyda'r hyder i herio rhagdybiaethau ac ysgogi arfer gorau. | |

## Manylion eraill

**Lleoliad:** Swyddfa S4C, Sgwâr Canolog, Caerdydd (Mae S4C yn gweithredu polisi gwaith hybrid.).

**Cyflog:** £65,000 y flwyddyn

**Cytundeb:** 12 mis i ddechrau

**Oriau gwaith:** 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

**Cyfnod prawf:** 6 mis

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau.

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

**Teithio:** Mae'r rôl yn gofyn i chi fod yn bresennol yn Yr Egin, Caerfyrddin yn rheolaidd, yn ogystal â theithio'n achlysurol o fewn Cymru.

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **9.00 ar ddydd Llun 2 Mawrth 2026** at Pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

## Defnyddio AI

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.